Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Addysg a Gweddnewid
Deialu uniongyrchol :
Gofynnwch am: Gwasanaethau Disgyblion
Ein cyf:

Dyddiad: 30 Tachwedd 2021

At: Rieni/Gofalwyr disgyblion Blwyddyn 2 sy'n symud o ysgol fabanod i ysgol iau ym mis Medi 2022

Annwyl Riant/Ofalwr

Derbyn i'r ysgol – Medi 2022

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig i rieni a gofalwyr disgyblion sydd ym Mlwyddyn 2 mewn ysgol fabanod ac yn gymwys i symud i Flwyddyn 3 mewn ysgol iau ym mis Medi 2022.

Os ydych yn rhiant/gofalwr i blentyn sy'n fod i drosglwyddo o'r ysgol fabanod i'r ysgol iau ym mis Medi 2022, **mae'n rhaid** i chi lenwi ffurflen cais ysgol. Does dim hawl awtomatig i le ym Mlwyddyn 3 mewn ysgol iau.

Gellwch wneud cais ar-lein. Os ydych eisoes wedi ymuno â Fy Nghyfrif ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bydd angen i chi fewngofnodi ac wedyn gellwch gwblhau cais am le ym Mlwyddyn 3 ar-lein. Os nad ydych eisoes wedi llofnodi ar gyfer Fy Nghyfrif, gellwch greu eich cyfrif o wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Y cyfan sydd arnoch ei angen yw cyfeiriad e-bost. Mae'n gyflym ac yn hawdd gwneud cais am le ym mlwyddyn derbyn drwy Fy Nghyfrif a gellwch gael tawelwch meddwl, gan wybod bod eich cais wedi dod i law oherwydd, unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r cais, bydd hyn yn cael ei nodi yn y crynodeb o wybodaeth yn Fy Nghyfrif.

Cyn gwneud cais ar-lein, mae'r Cyngor yn argymell eich bod yn darllen 2022-2023 Prosbectws Dechrau yn yr Ysgol, sydd ar gael o'r wefan, neu, fel arall, e-bostiwch pupilservices@bridgend.gov.uk i ofyn am gopi papur.

Mae'r ffurflen ar gael ar ffurf copi papur ar gais gan eich ysgol leol.

Nodwch, os gwelwch yn dda, mae'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau wedi eu cwblhau yw **4pm dydd Gwener**, **11 Chwefror 2022.** Gall methu â chyflwyno cais erbyn y dyddiad hwn arwain at wrthod lle i'ch plentyn yn yr ysgol o'ch dewis chi.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Mae gan bob rhiant/gofalwr yr hawl i nodi dewis o ran i ba ysgol y mae'n dymuno i'w blentyn fynd iddi. Yn y rhan fwyaf o achosion mae rhieni'n fodlon dewis eu hysgol addas agosaf (ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a di-ffydd, a elwir hefyd yn ysgol y dalgylch). Os byddwch yn llwyddiannus wrth wneud cais am le mewn ysgol nad yw'n ysgol addas agosaf eich plentyn, **ni fydd** y Cyngor yn darparu cludiant am ddim fel arfer, beth bynnag yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r Polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol neu Goleg ar gael ar ein wefan.

Os bydd ysgol yn derbyn gormod o geisiadau, h.y. os yw'r galw am leoedd yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael, bydd y Cyngor yn defnyddio ei feini prawf gormod o alw i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael. **Argymhellir yn gryf eich bod yn enwi ysgol arall fel eich ail ddewis o ysgol. Nid yw cyfyngu eich dewis i un ysgol yn unig yn gwella eich gobeithion o ennill lle i'ch plentyn yn yr ysgol honno.**

Mae'n bwysig nodi nad oes gan ddisgyblion â brodyr neu chwiorydd yn yr un ysgol yr hawl awtomatig i gael lle yn yr ysgol honno. Nodir rhestr lawn o'r meini prawf goralw a weithredir wrth neilltuo lleoedd mewn ysgolion yn y Polisi ar gyfer Derbyn i Ysgolion y Cyngor 2022-2023.

Ar gyfer derbyniadau i'r ysgolion canlynol, corff llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn sydd â'r cyfrifoldeb am yr holl drefniadau derbyn. Felly fe'ch cynghorir i gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol i wneud cais am le blwyddyn 3. Mae'r meini prawf derbyn ar gyfer yr ysgolion yma yn wahanol i ysgolion gynradd eraill a mae manylion llawn ar gael o'r ysgolion a/neu ar wefannau'r ysgolion.

- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig
- Ysgol Gynradd Gatholig St Robert
- Ysgol Gynradd Archddiacon John Lewis

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch y broses dderbyn, e-bostiwch pupilservices@bridgend.gov.uk os gwelwch yn dda.

Yn gywir

R J. D

Robin Davies
Rheolwr Grŵp (Cymorth Busnes)